# PWYLLGOR SAFONAU, 11.10.10

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Keith Greenly-Jones a Margaret Griffith.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr. Gwilym Ellis-Evans, Mr. Malcolm Jones a Mr. Sam Soysa.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Sion Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriad:-** Mr. Gwyn Williams (Aelod Annibynnol).

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'r Cynghorydd Margaret Griffith, Mr. David Clay, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Priodoldeb yn bresennol yng Nghynhadledd Pwyllgor Safonau Cymru ddydd Iau'r wythnos hon.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2010, fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2009/10

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn cynnig cynnwys ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2009/10 ac yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor.

Gosododd y Swyddog Monitro'r cyd-destun ac ymhelaethodd y Swyddog Priodoldeb ar wahanol benawdau'r adroddiad.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd y dylai paragraff cyntaf yr adroddiad gychwyn drwy gyfeirio at un o ddyletswyddau pwysicaf y Pwyllgor Safonau, sef hyrwyddo a chynnal safonau.

Pwysleisiwyd bod hwn yn adroddiad ardderchog a chynhwysfawr sy'n rhoi blas o'r hyn mae'r pwyllgor yn sefyll drosto.

Awgrymwyd y byddai fersiwn cryno o'r Adroddiad Blynyddol yn ddelfrydol fel erthygl i'r wasg am waith y pwyllgor. Awgrymwyd na ddylai'r erthygl gynnwys enwau na chefndir

unigolion, ond y dylai, yn hytrach, fod yn grynodeb o'r Adroddiad Blynyddol yn enw'r Cadeirydd ac yn cyfeirio'n gyffredinol at gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau.

Yna awgrymwyd y dylai'r Adroddiad Blynyddol ei hun restru enwau unigolion er mwyn i bobl ddod i wybod pwy sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau. Hefyd, oherwydd bod gan yr aelodau ystod amrywiol o brofiad, yn ymestyn y tu hwnt i faes llywodraeth leol, byddai'n fuddiol cynnwys ychydig frawddegau yn nodi cefndir pob aelod. Trafodwyd yr egwyddor o gynnwys lluniau'r aelodau yn yr Adroddiad Blynyddol a thra bo rhai aelodau o'r farn na ddylid cynnwys lluniau, 'roedd y mwyafrif yn cytuno y byddai llun yn fanteisiol gan y byddai'n rhoi wyneb i'r enwau. Awgrymwyd hefyd y dylid atodi'r Protocol ar Gyswllt Aelod / Swyddog gyda'r Adroddiad Blynyddol.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol, yn ddarostyngedig i'r canlynol:-**

- **Y dylid cynnwys rhagair gan y Cadeirydd.**
- **Y dylid pwysleisio'r ffaith bod y Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am hyrwyddo a chynnal safonau.**
- **Y dylai'r adroddiad gynnwys enwau a lluniau unigolion sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, ynghyd â chyfeiriad at gefndir pob un ohonynt.**

**(b) Y dylai'r erthygl i'r wasg fod yn grynodeb o'r Adroddiad Blynyddol yn enw'r Cadeirydd a dylai gyfeirio'n gyffredinol at gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau yn hytrach na rhestru enwau unigolion a'u cefndiroedd.**

## 4. SAFON GWYNEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y ddogfen 'Safon Gwynedd' a chyflwyno argymhelliad i'r Cyngor.

Nododd y Swyddog Monitro, yn absenoldeb unrhyw ymateb gan yr Ombwdsmon i'r ymgynghoriad, bod rhaid cymryd nad oedd ganddo sylwadau. Yna ymhelaethodd ar natur y sylwadau a dderbyniwyd gan 4 aelod o'r Cyngor a thrafodwyd y sylw yn ymwneud ag ymarferoldeb y pwynt olaf yn y Safon, sef y disgwylid i aelod o'r Cyngor roi gwybod i'r aelod lleol os yw'n ymdrin ag unrhyw fater yn ymwneud â'i etholaeth. Ar y naill law, mynegwyd y farn y dylai aelod lleol gael gwybod os yw aelod arall yn ymdrin ag achos yn ei ward gan fod hynny'n fater o gwrteisi a pharch. Fodd bynnag, mynegwyd pryder, ar y llaw arall, y gallai hynny arwain at dor-cyfrinachedd. Gan hynny, cytunwyd, fel ffordd ymlaen, i ddiwygio'r cymal i nodi y disgwylir i aelod roi gwybod i'r aelod lleol os yw'n ymdrin ag unrhyw fater yn ymwneud â'i etholaeth, oni bai y byddai hynny'n torri cyfrinachedd. Nodwyd hefyd y dylai aelod sy'n ymdrin â mater sy'n ymwneud ag etholaeth aelod arall egluro wrth unrhyw un sy'n gofyn am gymorth nad ef / hi yw'r aelod lleol.

Sylwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at 3 casgliad y gallai'r pwyllgor ddod iddynt yn dilyn gwrandawiad a holwyd a ddylid cynnwys y casgliadau hyn yn y Safon ei hun. Atebodd y Swyddog Monitro ei bod yn bwriadu cynnwys y casgliadau yn yr adroddiad i'r Cyngor llawn, ond y gellid eu cynnwys yn y Safon ei hun hefyd os mai dyna oedd dymuniad yr aelodau.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn fabwysiadu Safon Gwynedd, yn amodol ar ddiwygio'r pwynt olaf yn y Safon i nodi, os yw aelod yn ymdrin ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag etholaeth aelod arall, y dylai egluro wrth unrhyw un sy'n gofyn am gymorth nad ef / hi yw'r aelod lleol a hefyd roi gwybod i'r aelod lleol, oni bai y byddai hynny'n torri cyfrinachedd.**

## 5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r pwyllgor o'r datblygiadau, ers ei hadroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau.

Ymhelaethodd y Swyddog Priodoldeb ar gefndir rhai o'r achosion a chyfeiriodd at gwynion pellach a ddaeth i law ers paratoi'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. HYFFORDDIANT

Cyflwynwyd – hyfforddiant i aelodau'r pwyllgor ar Fuddiannau o dan y Côd Ymddygiad Aelodau a gofynnwyd i'r pwyllgor gymeradwyo ffurf hyfforddiant i weddill y Cyngor a chynghorau tref / cymuned.

Nododd y Swyddog Monitro fod buddiannau yn fater pwysig iawn i'r pwyllgor hwn, fel y pwyllgor oedd yn cynnal a hyrwyddo safonau ymddygiad gan gynghorwyr a'u cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad. Dyma hefyd y rhan o'r Côd yr oedd pobl yn cael y trafferth mwyaf i'w ddeall.

Dosbarthwyd pecyn hyfforddi yn cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf ysgrifenedig ac ar ffurf darluniau a gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried a oedd yna ffyrdd eraill o gyflwyno'r hyfforddiant hefyd.

Awgrymwyd dulliau megis Power Point, DVD, fideo neu trwy gyfrwng gwefan y Cyngor. Fodd bynnag, cytunwyd mai'r dull mwyaf effeithiol o wneud hyn fyddai trwy gyfrwng modiwlau electronig (sy'n cyflwyno gwybodaeth ac yn asesu dealltwriaeth o bwnc drwy gyfrwng holiadur ar y diwedd).

Nododd y Swyddog Monitro y gellid hefyd geisio cynhyrchu'r wybodaeth ysgrifenedig / darluniol a gynhwyswyd yn y pecyn hyfforddiant ar ffurf llyfryn bychan. Byddai modd symleiddio'r wybodaeth ymhellach a'i chyflwyno mewn iaith gliriach.

Awgrymwyd bod llyfryn o'r fath yn cael ei gyflwyno i aelodau newydd law yn llaw â'r Côd Ymddygiad.

Nododd y Swyddog Monitro y gallai'r sawl sydd heb fynediad i gyfrifiadur gael eu gwahodd i mewn am hanner diwrnod o hyfforddiant.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod clercod cynghorau cymuned yn derbyn hyfforddiant ffurfiol.

Nododd yr Aelod Pwyllgor Cymunedol fod gan y cyngor tref y mae'n aelod ohono Wi-Fi a chyfleusterau uwchdaflunydd ac y byddai'n hapus i gynnig treialu'r hyfforddiant ar ffurf electronig.

**PENDERFYNWYD cyflwyno hyfforddiant i weddill y Cyngor a chynghorau tref / cymuned drwy gyfrwng modiwlau electronig, ond gan wahodd y sawl sydd heb fynediad i gyfrifiadur i mewn am hanner diwrnod o hyfforddiant.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.15pm.